305

# ETHOLIAD CEREDIGION.

I.

DAETH [illegible]dd Etholiadol Ceredig i ben,
Pob Tory, rho'wch heibio eich hymffrost heb sen ;
Mae Richards dalentog, fu'n wrthddrych eich gwawd,
Yn Aelod Seneddol, er noddi'r tylawd.
Ein Richards yw'r *Member* [illegible]e,
*A'r* [illegible] a'r goch faner i'r gwter âg e.

II.

Rhyddfrydwyr twym galon ddaeth allan i'r gâd,
I ymladd yn wrol dros ryddid ein gwlad :
Hen deulu Gogerddan sydd uchel ei fru, [telldu.
Llwyn'groes, 'nghyda'r Bronwydd, a Hughes Cas-
Ein Richards, &c.

III.

A Davies *Contractor* i'r frwydyr a ddaeth,
Ac ymladd dros ryddid yn wrol a wnaeth,
I ddychwel E. Richards, ei gyfaill tra mad,
I fewn i St. Stephan er dirfawr leshad.
Ein Richards, &c.

X205227367

IV.

Ymffrostiai ryw lencyn yn mawrion ein tir,
Fod llawer o honynt yn Dories yn wir;
Gwel hwnw a hwythau'r wâg ymffrost yn awr,
Fod Toriaeth yn trengu ac a'r dd'od i lawr.
Ein Richards, &c.

V.

Dywedai y Toryaid rhai dyddiau yn ol,
Fod ymdrech Rhyddfrydwyr i'w golwg yn ffol:
*Stop*, yr hen lanciau—*you do mistake your pig*—
Nid cyfarth a chlochdar yw *motto* y Wig.
Ein Richards, &c.

VI.

Ca'dd Toriaeth ddwfn archoll eleni yn wir,
Ni wella o'u chlwyfau er disgwyl yn hir;
Fe ddywed meddygon sydd uchel mewn dysg,
Ei bod ar ddiflanu a myned o'n mysg.
Ein Richards, &c.

VII.

Lle cleddir hi bellach fydd cri yr holl wlad,—
Yn mynwent y *Quaker*, os ceir hi yn rhad:
Rhai dystaw rhyfeddol yw'r *Quakers* i gyd,
Dim *secret* i un dyn, caiff orwedd yn glyd.
Ein Richards, &c.

VIII.

Wel, cleddwch 'rhen Arthes a'i gwyneb i lawr,
Fel os gwna hi grafu, yn mhellach 'râi sawr;
Na roddwch 'run golofn i nodi y fan,
Y gorwedd 'r orthrymes fu'n llethi y gwan.
Ein Richards, &c.

IX.

Rhyddfrydwyr Ceredig! i chwi byddo'r clod,
Ni chyfid byth eto tra daear yn bod;
Yr wyf eto am ofyn un waith yn ddi-gêl,
A wnewch chwi law-nodi y drwydded â'r sêl?
Ein Richards, &c.

X.

Chwi ddewrion Ryddfrydwyr ennillodd y dydd,
Mae'r Tories yn edrych a'u golwg yn brudd:
Mae Richards yn llamu fel hŷdd ar y bryn,
A Malet yn ochain a'i olwg yn syn.
Ein Richards, &c.

XI.

Dywedai'r Toryaid 'nol colli y dydd,
I'r scriw o'u gafaelion yn wir fyn'd yn rhydd:
Wel mae yn beth rhyfedd i ddynion mor driw
Ymddiried fath frwydyr ar allu y scriw.
Ein Richards, &c.

XII.

Ar ddydd yr Etholiad, yr ydwyf yn dyst,
Wel'd caethion scriwiedig a'u golwg yn drist;
Ryw *Justice* llwyd barfog a chwip yn ei law,
Yn scriwio'u denantiaid i'r Pol yn ddifraw.
Ein Richards, &c.

XIII.

Ond Richards yw'r Aelod er gwaethaf y scriw,
Ceredig! Ceredig! mae dyn wrth dy lyw;
Nid hogyn difeddiant o bob peth ond aur,
Ond dyn sydd yn eisieu, yn Richards fe'i ceir.
Ein Richards, &c.

XIV.

Holl fryndiau Ceredig, rho'wch floedd yn gytun,
*Richards for ever!* hwn ydyw'r iawn ddyn,
I eistedd yn ymyl 'run Gladstone a Bright,
Er pleidio Rhyddfrydiaeth, egwyddor sydd *right.*
Ein Richards yw'r *Member,* cydfloeddiwn hwrê,
A Vaughan a'i goch faner i'r gwter âg e.

TREGARONIAN.